PWYLLGOR GWASANAETHAU LLES A IECHYD 29.01.04

Presennol:- Y Cynghorydd Michael Clishem (Is-gadeirydd yn y gadair)

Y Cynghorwyr William Arthur Evans, Peter Gaffey, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Linda Wyn Jones, R.L. Jones, Dafydd Owen, Ieuan Roberts, Jean Roscoe, Arthur Wyn Rowlands a R.H. Wyn Williams.

Aelodau cyfetholedig:- Idris Jones (Cyngor Henoed Gwynedd)

Hefyd yn bresennol:- Dafydd Lewis (Cyfarwyddwr Strategol – Gofal), Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau), Gareth Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Emyr Vaughan Evans (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Tai), Sheila Lloyd (Rheolwraig Adnoddau), Glyn Tomos (Rheolwr Gwasanaeth Adain Oedolion – Anabledd Corfforol) a Llywela Haf Owain (Clerc Pwyllgor).

Ymddiheuriadau:- Y Cynghorwyr Tony Eccles, Dylan Edwards, Seimon Glyn, Gwynfor Hughes (Cadeirydd), P.G. Larsen, W. Roy Owen ac Aled Griffiths (Hawliau Lles Anabl)

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y canlynol fuddiant personol am y rheswm a nodir isod:

1) Datganodd y Cynghorydd Gwen Griffith fuddiant yn eitem 8, Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai, oherwydd bod ei mham yn byw mewn tŷ cyngor.
2) Datganodd y Cynghorydd Keith Greenly-Jones ddiddordeb yn eitem 8, Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai, gan ei fod yn denant tŷ cyngor. Nododd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd bod y buddiant yn syrthio o dan paragraff 15 (a) o'r côd ymddygiad.
3) Datganodd y Cynghorydd Jean Roscoe fuddiant yn eitem 5 gan bod ei bod yn un o gyfarwyddwr Gofal a Thrwsio.

2. MATER BRYS

TANWARIANT GRANTIAU TAI

Nid oedd y mater uchod a gyfeiriwyd i'r pwyllgor hwn gan y Bwrdd fel mater brys wedi ei gynnwys ar y rhaglen ond cytunodd y cadeirydd i'w drafod o dan Adran 100(4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan fod y mater yn gofyn am sylw brys.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Strategol – Gofal:

i. Y trafodwyd y mater yn wreiddiol gan y Bwrdd ar 4 Tachwedd, 2003 ac mai'r penderfyniad ydoedd clustnodi £185,000 o'r tanwaraint o fewn grantiau tai ar gyfer ariannu Sustem Gwybodaeth Gwasanaethau Cymdeithasol (£160,000) ac i ddiogelu Craig Fawr, Abermaw (£25,000), gyda'r gweddill o £215,000 yn cael ei drosglwyddo i'r Ardaloedd Adnewyddu.
ii. Yn sgil cais gan y Pwyllgor Polisi Corfforaethol ailystyriwyd y mater yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr. Penderfynodd y Bwrdd gadarnhau eu penderfyniad blaenorol a chyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Gwasanaethau Lles a Iechyd gan ofyn iddynt sefydlu gweithgor er mwyn ymchwilio i'r rhesymau pam

fod y tanwariant wedi digwydd a dwyn argymhellion ger bron i osgoi sefyllfa gyffelyb yn y dyfodol. Nodwyd bod y Bwrdd yn argymell bod y Cynghorydd Trefor Edwards yn cael ei wahodd i fod yn aelod o'r gweithgor.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau nododd tra mai diffyg ymgymerwyr i gyflawni'r gwaith oedd y prif reswm a nodwyd yn wreiddiol ei fod yn credu bod amryw o resymau paham fod tanwariant a phwysleisiodd mai dim ond ymchwiliad arwynebol a wnaed hyd yn hyn i'r rhesymau dros hynny. Cyfeiriodd yn benodol at y rhesymau canlynol sef bod Uwch Swyddog wedi bod yn absennol o'r waith am flwyddyn, y bu oedi gyda chontractau a bod tendrau wedi dod i mewn yn hwyr. Nododd mai dyma'r flwyddyn gyntaf ble y bu tanwariant sylweddol. Ychwanegodd bod ymrwymiad wedi ei wneud i wario'r arian ond nad oes gwariant wedi digwydd.

Ategodd y Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau bod y penderfyniad i wario'r arian ar wasanaethau eraill o fewn y Cyngor yn gwneud synnwyr cyllidol er mwyn osgoi'r risg o golli adnoddau yn gyfangwbl. Eglurodd bod perygl i fwy o lithriad ddod i'r amlwg ond y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau bod hwnnw yn cael ei gadw o fewn y maes grantiau.

Nododd yr aelod portffolio ei bod yn credu fod tanwariant yn derm anaddas gan fod yr arian wedi ei ymrwymo ac y dylid edrych ar ffordd wahanol o weinyddu'r grantiau. Ychwanegodd Cadeirydd y Cyngor y byddai yn hoffi gweld amserlen yn cael ei llunio ar gyfer y gweithgor arfaethedig.

PENDERFYNWYD:

i) sefydlu gweithgor i ymchwilio i'r rhesymau paham fod tanwariant yn y maes grantiau tai

ii) ethol y Cynghorwyr Gwen Griffith, Michael Clishem, William Arthur Evans, Trefor Edwards a Peredur Jenkins i wasanaethau ar y gweithgor yn ogystal â'r arweinydd portffolio i weithredu fel aelod ex-officio

ii) gofyn i'r swyddogion perthnasol sicrhau bod y gweithgor yn cwrdd o fewn y 3 mis nesaf.

3. COFNODION

Llofnododd yr is-gadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2003, fel rhai cywir yn amodol ar newid y frawddeg ganlynol i ddarllen fel a ganlyn:

Tudalen 2, iii,

"iii) bwriedir gwneud cynnig ger bron cyfarfod rheolaethol nesaf yr Heddlu bod pob galwad gan *gartref yr henoed neu rai â anableddau dysgu* yn cael eu graddio fel rhai sydd angen 'ymateb brys'. Nododd pe derbynnir galwadau o'r fath y byddai ei adran ef, diogelwch cymunedol, yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn parthed hynny."

4. GRŴP TASG GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL

Cyflwynwyd cofnodion y Grŵp uchod a gyfarfu ar 29 Ebrill a 31 Hydref 2003 er mwyn trafod pryderon a godwyd mewn perthynas a gweinyddiaeth grantiau cyfleusterau i'r anabl, gan y Cyfarwyddwr Strategol – Gofal.

Adroddwyd beth oedd brif ganfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Tasg:

i) pryder ynglŷn â diffyg adeiladwyr
ii) yr angen i drefniadau gweithredol fod yn ymwybodol o anghenion arbennig achosion cymhleth a dwys
iii) yr angen i drafodaeth ddigwydd rhwng y Cyngor a'r Gwasanaeth Iechyd ynglŷn â chyflogau Therapyddion Galwedigaethol
iv) y byddai'n fuddiol i'r Grŵp Tasg gyfarfod yn flynyddol i adolygu'r sefyllfa.

Nododd aelod y byddai'n well pennu ffi ar gyfer gwneud addasiadau yn hytrach na gofyn i gwmnïau rhoi tendr i mewn bob tro gan y byddai hyn yn ffordd o leihau gwaith papur.

Mewn ymateb i gwestiwn gael aelod nododd Rheolwr Gwasanaeth Adain Oedolion – Anabledd Corfforol bod bwlch mawr yn bodoli rhwng y cyflog mae'r Cyngor yn ei dalu i Therapyddion Galwedigaethol a'r cyflog a delir gan y Gwasanaeth Iechyd. Ymhelaethodd ei bod yn anodd gweld sut y gellir cystadlu gyda'r cyflog a gynigir gan y Gwasanaeth Iechyd oni bai fod cymorth yn cael ei ddarparu gan y Cynulliad. Nododd bod y gwasanaeth yn cynnal y sefyllfa yn dda ar hyn o bryd a bod ymgynghorwyr anabledd wedi eu cyflogi i ddelio â addasiadau syml.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Strategol Gofal y cynhelwyd trafodaethau gyda'r Adran Personél parthed cyflogau Therapyddion Galwedigaethol ac mai'r argymhelliad ar hyn o bryd yw peidio gwneud dim tan bo graddfeydd gweithwyr cymdeithasol wedi eu hadolygu gan y bydd hyn yn effeithio ar gyflogau Therapyddion Galwedigaethol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad yn ogystal â'r canfyddiadau a'r argymhellion uchod.

5. PROSIECT CYSONI RHENTI CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad ar renti tai Cyngor Gwynedd gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Tai.

Adroddwyd gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai:

i. bod anghysonderau o safbwynt rhenti Tai ar draws y sir a bod codi lefel rhenti ar sail canran yn unol a chyfarwyddiadau'r Cynulliad yn gwaethygu'r sefyllfa. Nodwyd bod y Cynulliad wedi comisiynu adroddiad i ymchwilio yn genedlaethol i'r sefyllfa ac y disgwylir ei gwblhau erbyn Gwanwyn 2004.
ii. y comisiynwyd Cwmmi Beha Williams Norman Ltd i wneud asesiad o'r sefyllfa bresennol er mwyn sicrhau tegwch o ran lefelau rhenti ar draws ardal y Cyngor, sicrhau bod y rhent a delir yn adlewyrchu'r budd i'r tenant o ran ffactorau megis maint, math, adnoddau, lleoliad ac yn y blaen yn ogystal â chydymffurfio â rheolau'r Cynulliad a gweithio o fewn cyfyngiadau ariannu'r cyfrif refeniw tai.
iii. Gobeithir cyflwyno methodoleg ar gyfer addasu'r rhenti i'r Bwrdd erbyn Mawrth 2004 ond ni ragwelir y bydd modd mabwysiadu'r cynllun hyd Ionawr 2005. Rhybuddiwyd yr aelodau bod y broses o gysoni rhenti yn debygol o gymryd blynyddoedd i'r gwblhau.

PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.

6. ADOLYGIAD RHEOLAETHOL Y GWASANAETH CYD-STORFA

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ar Adolygiad Rheolaethol y Gwasanaeth Cyd-Storfa gan y Rheolwr Gwasanaeth Adain Oedolion – Anabledd Corfforol.

Adroddwyd gan y Rheolwr Gwasanaeth Adain Oedolion – Anabledd Corfforfol:

i. y gwnaed yr adolygiad yn sgil cais gan yr Ymddiriedolaeth Iechyd am gyfraniad blynyddol o 36k tuag at gyllido'r gost o gynnal a chadw offer a chyfarpar sydd yn cael ei ddarparu a'i gludo ar ran Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Nodwyd ei bod hi yn gyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i ddarparu'r math yma o wasanaeth.
ii. y dengys yr adolygiad bod y bartneriaeth bresennol yn gweithredu yn effeithlon, a bod y gwasanaeth a gynigir yn ffafriol o safbwynt cost, perfformiad ac ansawdd. Ategwyd pe bai'r gwasanaeth yn dewis codi tal ar y defnyddwyr y byddai hyn yn cynyddu y gwaith gweinyddol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod nododd bod dyddiau dosbarthu penodol wedi eu pennu ar gyfer ardaloedd gwahanol o fewn Gwynedd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r model cyfredol o ddarparu'r gwasanaeth ac argymell i'r Bwrdd y dylid rhoi grant blynyddol o £20k o ddechrau Ebrill 2004 ymlaen.

7. CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI

Cyflwynwyd yr adroddiad ar Gyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a oedd yn argymell sefydlu cyllideb ar gyfer y cyfrif refeniw tai ar gyfer 2004/05 ynghyd â gosod lefelau rhent a thaliadau am wasanaethau ar gyfer y flwyddyn gan y Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau.

Adroddwyd gan y Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau :

i. na dderbyniwyd ffigyrau terfynol gan y Cynulliad parthed cymhorthdal canllawiau rhent ac o ganlyniad bod posibilrwydd y bydd yn rhaid addasu ychydig ar y ffigyrau maes o law.
ii. y penderfynwyd y llynedd y byddai'r gyllideb ychwanegol o £533,800 a gafwyd yn sgil gweithredu'r gyfundrefn gweithredu pobl yn cael ei ddefnyddio er mwyn cadw opsiynau'r Cyngor yn agored o ran ceisio sicrhau bod stoc tai'r cyngor yn cyrraedd y safon ansawdd tai erbyn 2012. Fodd bynnag penderfynwyd defnyddio'r arian i gwrdd â diffyg o £131,730 yn y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2003/04.
iii. nodwyd pe bai cyllideb 2004/5 yn aros yn llonydd y byddai'r gwarged o £533,800 yn cael ei ostwng i £257,860. Er mwyn cadw'r gwarged at y diben gwreiddiol, sef cadw opsiynau'r Cyngor yn agored o ran ceisio sicrhau bod stoc tai'r cyngor yn cyrraedd y safon ansawdd tai erbyn 2012, byddai yn rhaid cael arbedion pellach o £275,940 ar ben y £131,730 a nodwyd ar gyfer 2003/04, cyfanswm o £407,670.
iv. bod gwerthiant tai yn golygu llai o incwm i'r cyngor ac yn y pendraw yn creu mwy o ddiffyg. Nodwyd hefyd yn 2004/5 y bydd budd-daliadau refeniw tai ar gyfer y tenantiaid yn cael eu tynnu o'r cyfrif refeniw tai ac o ganlyniad y bydd gostyngiad cyfatebol yn y sybsydi a derbynnir.
v. yr argymhellir cynnydd rhent o 3.56%, sy'n is na chanllaw y Cynulliad, oherwydd y byddai defnyddio unrhyw ffigwr uwchlaw yn golygu cosb cymhorthdal. Eglurwyd y byddai defnyddio ffigwr is yn golygu llai o arian i'w wario ar wella ansawdd tai.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod nododd y defnyddir ¼ o'r arian a geir o werthiant tai ar wella ansawdd tai, tra defnyddir y gweddill i ad-dalu dyled. Nododd hefyd bod yna ystyriaeth yn cael ei roddi ar hyn o bryd i sut y gallai'r Cyngor annog rhai sydd ddim yn hawlio budd-daliadau tai i wneud hynny. Ategodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai mai dim ond gyda budd-daliadau tai y rhoddir cymorth ar hyn o bryd ac nad oes cynnydd yn y rhent siopau oherwydd ei bod yn ofynnol i'r prisiwr dosbarth adolygu'r rhent yn unol â gweithredoedd y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau nododd y Cyfarwyddwr Strategol – Gofal y bydd angen edrych ar werthiant tai yn y dyfodol a chymharu sefyllfa'r Cyngor â chynghorau eraill. Nododd mai'r peth pwysicaf ar hyn o bryd yw bod yn ymwybodol bod nifer stoc tai'r cyngor yn gostwng o ganlyniad i'r cynllun hawl i brynu. Ategodd yr hysbysir tenantiaid o gynnydd mewn rhent drwy lythyr mis ymlaen llaw

Mynegodd yr aelodau eu dymuniad i gael adroddiad ar weithgareddau'r Uned Hawliau Lles i weld yr hyn oeddynt yn ei wneud i annog rhai oedd a hawl i fudd-daliadau i'w hawlio.

PENDERFYNWYD:

i) Argymell i'r Bwrdd y dylid cynyddu rhenti fel a ganlyn ar gyfer 2004/5

- **Tai – cynyddu rhenti 3.56%**
- **Modurdai – ychwanegu 50c ar y rhent cyfartalog presennol o £5**
- **Taliadau am wasanaethau – cynyddu 2.5%**
- **Siopau – nid oes darpariaeth ar gyfer adolygiad yn 2004/5.**

(ii) Bod yr Uned Bolisi o fewn y Gyfarwyddiaeth Gofal (mewn cysylltiad a'r Pennaeth Polisi a Pherfformiad a Phennaeth Tai) yn dod a chynlluniau ymlaen ar gyfer gwireddu arbedion o £407,670 yng nghyllideb 2005/6.

(iii) Y dylid cwrdd a'r diffyg o £407,670 yn 2004/5 drwy ddefnyddio'r arian a ryddhawyd o'r gyfundrefn cefnogi pobl a bod gweddilll y gwarged yn cael ei wario ar eitemau unwaith ac am byth.

Nododd y Cynghorydd Keith Greenly-Jones ei fod yn dymuno cofnodi'r ffaith ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y penderfyniad uchod.

8. CYNLLUN INTEGREDIG RHEOLI RISG AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd, er sylwadau, adroddiad ar y Cynllun Integredig Rheoli Risg Awdurdod Tân Gogledd Cymru gan y Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau.

Adroddwyd bod y cynllun yn manylu ar eu bwriadau strategol ar ddyfodol y Gwasanaeth Tân yn ogystal â chanolbwyntio ar wyth risg penodol a'r camau a ddylid eu cymryd er mwyn dygymod â hwy. Eglurwyd bod y ddogfen yn pwysleisio fwy ar waith ataliol yn hytrach na gwaith ymatebol yn ogystal â phwysigrwydd cydweithio er mwyn rheoli risg.

Mynegodd yr aelodau bryder na fydd yr Awdurdod Tân yn ymateb i alwadau sy'n ffug yn eu tyb hwy ac eu bod yn credu y dylid rhoi pwysau ar y llywodraeth i ganiatáu i Awdurdodau Tân godi tâl ar y rhai sy'n gwneud galwadau ffug. Nodwyd hefyd eu bod yn bryderus y byddai'r oriau gweithio arfaethedig a gyfeirir atynt yn yr adroddiad yn debygol o arwain at golli staff yn enwedig gweithwyr rhan amser.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod nododd y Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau ei fod ar deall nad oes hawl gan yr awdurdod tân i godi tâl am alwadau ffôn ffug.

PENDERFYNWYD:

i) nodi a derbyn yr wybodaeth

ii) cyflwyno ymateb ar sail y pwyntiau a nodwyd yn yr adroddiad yn ogystal â'r sylwadau uchod gan y cynghorwyr.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 4:15pm.